## Adroddiad cynnydd ar Raglen Ddeddfwriaethol 2007/08 Llywodraeth Cynulliad Cymru

## 26 Mehefin 2008

## Carwyn Jones, Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ

Mae'r datganiad hwn yn cynnwys adroddiad cynnydd ar raglen ddeddfwriaethol 2007/08 Llywodraeth Cynulliad Cymru, a hynny o flaen datganiad Prif Weinidog Cymru ar raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth ar gyfer 2008/09, a fydd yn cael ei draddodi yn ystod Cyfarfod Llawn 15 Gorffennaf.

Nod y Llywodraeth yn ystod 2007/08 oedd datblygu chwe Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (LCO) a thri Mesur Cynulliad yn y meysydd canlynol:

- Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar Anghenion Dysgu Ychwanegol;
- Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar Ddiogelu'r Amgylchedd a Rheoli Gwastraff;
- Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar Blant Diamddiffyn;
- Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar Ofal Cartref;
- Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar Dai Fforddiadwy;
- Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar yr Iaith Gymraeg;
- Mesur y Cynulliad ar Wneud Iawn am Gamweddau'r GIG.
- Mesur y Cynulliad ar Deithio gan Ddysgwyr; a
- Mesur y Cynulliad ar Ddysgu a Sgiliau.

Roedd rhaglen 2007/08 yn cynrychioli'r camau cyntaf i gyflwyno'r ymrwymiadau deddfwriaethol sy'n sylfaen i gyflwyno Agenda Cymru'n Un y Llywodraeth. Wrth ddarparu'r diweddariad hwn, rwyf wedi cynnwys pob eitem yn y drefn y cawsant eu cyflwyno i'r Cynulliad neu y byddant yn cael eu cyflwyno i'r Cynulliad.

*LCO ar Anghenion Dysgu Ychwanegol*

Gosodwyd yr LCO ar 11 Mehefin 2007. Yn sgil craffu arno cyn y broses ddeddfu a chymeradwyo'r Gorchymyn drafft gan y Cynulliad a dau Dŷ'r Senedd, rhoddwyd cydsyniad brenhinol i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Addysg a Hyfforddiant) ar 9 Ebrill 2008.

*LCO ar Ddiogelu'r Amgylchedd a Rheoli Gwastraff*

Cyflwynwyd yr LCO i'r Cynulliad ar 19 Mehefin 2007, a chraffodd Pwyllgor Deddfwriaethol y Cynulliad arno cyn y broses ddeddfu. Rydym wrthi'n trafod yr LCO â Llywodraeth y DU, ac mae cynnydd yn cael ei wneud.

*Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG*

Cyflwynwyd y Mesur ar 2 Gorffennaf 2007. Mae wedi cwblhau holl gamau deddfwriaethol y Cynulliad ac fe'i cymeradwywyd gan y Cynulliad ar 6 Mai. Bydd yn mynd gerbron y Cyfrin Gyngor i gael cydsyniad brenhinol ym mis Gorffennaf.

*LCO ar Blant Diamddiffyn*

Gosodwyd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol a Meysydd Eraill) ynghylch Plant Diamddiffyn ar 9 Gorffennaf 2007. Mae'r Cynulliad wedi craffu ar yr LCO cyn y broses ddeddfu, a gosodwyd Gorchymyn arfaethedig diwygiedig ar 8 Ebrill 2008. Gosodwyd y Gorchymyn yn Senedd y DU

hefyd, ac mae'r Pwyllgor Materion Cymreig wrthi'n craffu arno. Ar ôl cael adroddiad y Pwyllgor ac ar ôl ystyried yr argymhellion a gynhwysir ynddo, bydd y Gorchymyn drafft yn cael ei drosglwyddo yn ôl i'r Cynulliad i'w drafod a'i gymeradwyo yn gynnar yn ystod sesiwn yr hydref.

*LCO ar Ofal Cartref*

Gosodwyd LCO ar Ofal Cartref, a adwaenir yn ffurfiol fel Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol) 2008, ar 26 Tachwedd 2007. Ar ôl i'r Cynulliad a Senedd y DU graffu arno cyn y broses ddeddfu, cymeradwywyd y Gorchymyn gan y Cynulliad ar 20 Mai 2008, ac mae'r LCO gerbron Senedd y DU erbyn hyn er mwyn ei gymeradwyo.

*LCO ar Dai Fforddiadwy*

Gosodwyd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 5) 2008 ar Dai Fforddiadwy ar 3 Rhagfyr 2007, a chraffodd Pwyllgor Deddfwriaethol y Cynulliad arno cyn y broses ddeddfu. Fe'i gosodwyd yn Senedd y DU, ac mae'r Pwyllgor Materion Cymreig wrthi'n craffu arno. Ar ôl cael adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig, byddwn yn ystyried yr argymhellion a gynhwysir yn adroddiadau pwyllgorau'r Cynulliad a Senedd y DU, ac yn dod â'r LCO drafft yn ôl i'r Cynulliad i'w drafod a'i gymeradwyo yn ystod sesiwn yr hydref.

*Mesur Teithio gan Ddysgwyr*

Cyflwynwyd y Mesur ar 15 Ebrill 2008, yn sgil cynnal ymgynghoriad cyhoeddus helaeth ar y drafft arfaethedig. Mae Pwyllgor y Cynulliad yn ystyried y Mesur ar hyn o bryd fel rhan o ail gam y broses o graffu arno, a disgwylir iddo fynd ymlaen i gam tri a cham pedwar yn gynnar yn ystod sesiwn yr hydref.

*Mesur Dysgu a Sgiliau*

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Mesur rhwng Ionawr ac Ebrill 2008. Bydd yn cael ei gyflwyno ac yn dechrau ar gam cyntaf proses graffu'r Cynulliad cyn toriad yr haf.

*LCO ar yr Iaith Gymraeg*

Mae LCO yn cael ei baratoi ar yr iaith Gymraeg, ac yn sgil y datganiad a wnaed gan y Gweinidog dros Dreftadaeth, ddydd Gwener 20 Mehefin, byddwch yn ymwybodol i'r Cabinet gytuno ar gwmpas eang yr LCO, ac rydym wrthi'n cwblhau manylion yr LCO i sicrhau bod lefel cymhwysedd y Cynulliad yn glir. Mae hyn yn hanfodol o ran sut mae'n effeithio ar ein gallu i ddatblygu Mesurau ar yr iaith yn y dyfodol.

Gwnaed cynnydd go iawn mewn perthynas â datblygu'r Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol, ac er y cafwyd heriau â'r hyn sy'n weithdrefn hollol newydd, mae pedwar o'r chwech LCO yn y rhaglen ar y trywydd iawn ac rydym yn rhagweld y bydd y lleill yn dilyn yn ddiweddarach eleni. Fodd bynnag, trwy gyfrwng Mesurau'r Cynulliad y bydd newid gwirioneddol yn cael ei wneud. Mae'r holl Fesurau yr ymrwymwyd iddynt fel rhan o'r rhaglen ddeddfwriaethol gyntaf wedi cael eu datblygu ac fe'u cyflwynir i'r Cynulliad i'w cymeradwyo cyn diwedd y flwyddyn.